Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll
a gynhalwyd yn Y Ganolfan, Llithfaen
Nos Fawrth 12fed o Fawrth, 2019 am 7:00y.h.

Cadeirydd: Y Cyng. Griffith John Lesley Jones

Presennol :		Cynghorwyr - Griffith Jones (GJ), Sara Williams (SW), Sianelen Pleming (SP), John Owen (JO), Gwilym Williams (GW), Ynyr Ellis (YE), Lizbeth James (LJ).
1.		**Hysbysiadau'r Cadeirydd** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r Cyfarfod.
2.		**Ymddiheuriadau** Cyng. Aled Jones (AJ), Olwen Roberts (OR) Emlyn Hughes (EH), William Jones (WJ).
3.		**Datgan Diddordeb** SP ar Bwynt 13. (Aelwyd, Gŵyl Ifan a Chae Chwarae)
4.		**Diweddariadau asedau** Dim
5.		**Cofnodion Cyfarfod 12fed o Fawrth, 2019**
	5.1	**Cyflwyno a mabwysiadu** Cynigiodd JO ac eiliodd GW cywirdeb y Cofnodion ac fe'u mabwysiadwyd.
	5.2	**Materion yn codi**
	5.2.1	**Mynwent Pistyll** Cyflwynodd GW ddau dendr arall i dorri'r gwair yn fynwent - Penderfynwyd ceisio cael pris am ail doriad hefyd. ***GW i weithredu***
	5.2.2	**Cerrig Milltir Blwyf Pistyll** Atgoffwyd y Cyngor i fynd ati i ddarganfod eu hunion leoliad fel y cytunwyd.
	5.2.3	**Ysbwriel yn dilyn casgliadau sbwriel ac ail-gylchu'r Cyngor Sir** Cytunodd y Cyngor fod hwn yn broblem enfawr yn ddiweddar a bod cwynion ychwanegol wedi dod i law. ***Y Clerc i wneud cwyn pellach i'r Cyngor Sir***

Llofnodwyd yn gywir gan : Dyddiad:

Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas
1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP
E.bost: ccpistyll@outlook.com
Ffon symudol: 07979438307

6.		**Ceisiadau Cynllunio** Dim
7.		**Gôr yrru drwy Lithfaen** Esboniodd y Clerc bod hysbyseb wedi ei osod yn y Daily Post i hysbysebu gyrwyr fod Llithfaen yn ardal gorfodi dan gyfarwyddiadau'r Cadeirydd yn dilyn gwybodaeth bellach oedd wedi ei dderbyn gan y Rhingyll fod 17 o yrwyr wedi ei dal mewn un bore ar ôl newid yr amser i fod cyn 8.30am. ***Y Clerc i gysylltu ar Cyngor Sir i ofyn pryd fydd yr ardal yn derbyn yr arwyddion fel y gadwyd.***
8.		**Wal y Ffordd i Nant Gwrtheyrn** Esboniodd SP ei bod wedi derbyn e. bost gan y Swyddog AHNE yn egluro nad oedd y Cyngor Sir yn fodlon llunio'r ffurflen tendro. Aeth ymlaen i esbonio nad oes arian ar gael yn gronfa AHNE am grant y flwyddyn yma. ***SP i ofyn am arweiniad pellach gan y Swyddog AHNE a'r Pensaer lleol i ymwneud a llunio'r ffurflen.***
9.		**Tir Comin a Maes Parcio wrth fynedfa Nant Gwrtheyrn** Esboniodd y Clerc ei bod wedi cael arweiniad gan Un Llais Cymru ar y mater, bydd rhaid ychwanegu'r tir i restr asedau'r Cyngor a sicrhau ei fod wedi ei yswirio. Ychwanegodd SP bod mater y sbwriel ar y safle hefyd wedi ei ddatrys, a bod y sbwriel yn cael ei glirio pob fore Mawrth. Cynigiodd SP ac LJ y buasent yn fodlon cadw golwg ar y safle.
10.		**Ail ymaelodi ac Un Llais Cymru** Esboniodd y Clerc bod y gost o ail ymaelodi yn £92 – Gan fod gwybodaeth a Chefnogaeth helaeth i gael ganddynt penderfynwyd bydd y Cyngor yn ail ymaelodi. ***Y Clerc i Weithredu***
11.		**Canlyniad Archwiliad allanol blynyddol yn diweddu 31 Mawrth 2018 wedi ei gwblhau ar y 19 o Chwefror, 2019.** Derbynwyd a chymeradwywyd y ffurflen flynyddol. Cyflwynwyd y materion a godwyd - Y Clerc i'w ychwanegu i Gynllun Gweithredu'r Cyngor i'w gymeradwyo yn y cyfarfod nesaf. Y Clerc i chwilio am arweiniad gan yr Archwilwyr Mewnol i ymwneud ac archwiliadau yn y dyfodol.
12.		**Materion Lleol** Derbyniodd y Clerc e. bost gan Glerc Cyngor Cymuned Tudweiliog i ymwneud a chais am gefnogaeth i osgoi cau Adran Wasanaeth Argyfwng Fasgiwlar Brys yn Ysbyty Gwynedd. Cynigiodd SP ac eiliodd LJ gefnogi'r cais a chytunwyd pawb. ***Y Clerc i weithredu***
13.		**Ceisiadau am rodd * Nid oedd SP yn bresennol*** Penderfynwyd cyfrannu at yr achosion lleol canlynol yn unig: Canolfan Gymdeithasol Llithfaen: £5,400.00 Adran Aelwyd Gwrtheyrn: £400.00 Pwyllgor Gŵyl Ifan: £400.00 Pwyllgor Cae Chwarae: £700.00 Clwb Ffermwyr Ifanc Godre'r Eifl: £100.00

Llofnodwyd yn gywir gan : Dyddiad:

14.		**Gohebiaeth a Gwybodaeth**
	14.1	Cyflwyniad gan Swyddfa Archwilio Cymru - Y Clerc wedi ei gylchredeg o flaen llaw, dim sylwadau pellach.
	14.2	Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) i gyflwyno Pleidleisiau yn 16 oed- Y Clerc wedi ei gylchredeg o flaen llaw.
	14.3	Arolwg Cymru gyfan - Gwasanaethau Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu 2019 –SP wedi ei arddangos yn y Siop
	14.4	Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2019 Y Clerc wedi ei gylchredeg o flaen llaw
	14.5	Cefnogaeth ariannu Llywodraeth Cymru ar gael yn 2019-20/ funding support available in 2019-20 Y Clerc wedi ei gylchredeg o flaen llaw
	14.6	Ymgynghori cyhoeddus Canllawiau Cynllunio 21ain o Chwefror hyd at y 4ydd o Ebrill, 2019. Y Clerc wedi ei gylchredeg o flaen llaw
	14.7	Rali Goffa Merfyn Hughes Rali Llyn Mawrth 23/24 March 2019 Y Clerc wedi ei gylchredeg o flaen llaw
	14.8	Gwybodaeth am gynhyrchiad newydd Theatr Bara Caws - 'Costa Byw' Y Clerc wedi ei gylchredeg o flaen llaw
15.		**Cyllid**
	15.1	**Adolygiad Chwarterol** Adolygwyd a chymeradwywyd y cysoniad banc, gyfriflen proffid a cholled a rhagamcanion 2018/19. Cynigiodd GW ei gywirdeb ac eiliodd YE a chytunodd pawb.
	15.2	**Trafodion y gyfriflen banc diweddaraf** **Cyfrif Cyfredol:** Taliadau allan - £178.84 **Balŵns - £7.836.60** **Cyfrif Cadw:** *Nodwyd nad oedd y Clerc wedi derbyn y Gyfriflen i'r Cyfrif Cadw erbyn dyddiad y Cyfarfod* Taliadau i mewn - £842.15 - Roddion at y Diffiblwr yn unig **Credwyd bydd y Balŵns a garwyd ymlaen yn £2,988.80**
	15.3	**Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod** Taliad ail ymaelodi ac Un Llais Cymru £92.00 Hyfforddiant Un Llais Cymru £40.00 Cyflog Clerc £160.00 Treuliau Clerc £36.59 Adran Aelwyd Gwrtheyrn: £400.00 Pwyllgor Gŵyl Ifan: £400.00 Pwyllgor Cae Chwarae: £700.00 Clwb Ffermwyr Ifanc Godre'r Eifl: £100.00 Canolfan Gymdeithasol Llithfaen: £5,400.00
16.		**Dyddiad y Cyfarfod nesaf** 9fed o Ebrill, 2019

Llofnodwyd yn gywir gan : Dyddiad: